# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 5

PWERAU'R AWDURDODAU LLEOL

### 56 Pŵer i ddarparu safleoedd i gartrefi symudol

(1) Caiff awdurdod lleol o fewn ei ardal ddarparu safleoedd lle y gellir dod â chartrefi symudol, boed at wyliau neu at ddibenion dros dro eraill neu i'w defnyddio'n breswylfeydd parhaol, a chânt reoli'r safleoedd neu eu lesio i berson arall.

(2) Mae gan awdurdod lleol bŵer i wneud unrhyw beth y mae'n ymddangos iddo ei fod yn ddymunol mewn cysylltiad â darparu safleoedd o'r fath ac mae'r pethau y mae ganddo bŵer i'w gwneud yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) caffael tir sy'n cael ei ddefnyddio fel safle i gartrefi symudol neu sydd wedi ei osod allan fel safle i gartrefi symudol,

(b) darparu unrhyw wasanaethau er eu hiechyd neu er eu cyfleuster i'w defnyddio gan y rhai sy'n meddiannu safleoedd cartrefi symudol, ac

(c) darparu lle gweithio a chyfleusterau i gynnal gweithgareddau y maent yn arfer eu cynnal, mewn safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr neu mewn cysylltiad â'r safleoedd hynny.

(3) Wrth arfer ei bwerau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10.

(4) Cyn arfer y pŵer o dan is-adran (1) i ddarparu safle rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub—

(a) o ran mesurau sydd i'w cymryd i atal a chanfod tân ar y safle, a

(b) o ran darparu a chynnal a chadw dulliau ymladd tân arno.

(5) Rhaid i awdurdod lleol godi unrhyw daliadau rhesymol y bydd yn penderfynu arnynt mewn perthynas â safleoedd a reolir ganddo, ac ag unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir neu y trefnir eu bod ar gael o dan yr adran hon.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(6) Caiff awdurdod lleol drefnu bod gwasanaethau a chyfleusterau a ddarperir o dan yr adran hon ar gael i bersonau p'un a ydynt yn byw fel arfer yn ei ardal neu beidio.

(7) Caiff awdurdod lleol, os yw'n ymddangos iddo—

(a) bod angen safle i gartrefi symudol neu safle ychwanegol i gartrefi symudol yn ei ardal, neu

(b) y dylai'r awdurdod lleol gymryd drosodd tir sy'n cael ei ddefnyddio fel safle i gartrefi symudol er lles defnyddwyr cartrefi symudol lleol,

gaffael tir, neu unrhyw fuddiant mewn tir, yn orfodol.

(8) Nid yw'r pŵer a roddir gan is-adran (7) yn arferadwy mewn unrhyw achos penodol ond os yw'r awdurdod lleol wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i'w arfer.

(9) Mae Deddf Caffael Tir 1981 yn effeithiol o ran caffael tir, neu fuddiant mewn tir, o dan is-adran (7).

(10) Nid oes gan awdurdod lleol bŵer o dan yr adran hon i ddarparu cartrefi symudol.